



Diogelwch Aelodau a Gwirfoddolwyr

Mae diogelwch pawb yn hollbwysig yng ngwaith yr Urdd. Anelwn at sefydlu diwylliant o ddiogelwch o fewn y mudiad ymysg ein haelodau, gwirfoddolwyr a staff.

Cydnabyddwn fod profiadau amrywiol, boed yn brofiadau diwylliannol, chwaraeon, teithio ac yn y blaen, yn rhan bwysig o weithgaredd y mudiad ac nid ydym am ei atal na'u cyfyngu. I hwyluso hyn rydym yn defnyddio'r arweiniad a roddir i'r ysgolion trwy'r Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r Adran Addysg a Sgiliau.

Addaswyd yr arweiniad yma at waith arweinyddion a gweithgareddau'r Urdd ac mae i'w weld yn Llawlyfr Arweinwyr.

Ar gyfer arolygaeth plant a phobl ifanc, rhoddir yr arweiniad canlynol. Arweiniad yw'r ffigyrau yma ac efallai y gwelwch fod angen cynyddu'r nifer o oedolion ar gyfer rhai gweithgareddau.

Aelodau sydd ym mlwyddyn ysgol 3 – un oedolyn i bob 6 aelod

Aelodau sydd ym mlynnyddoedd ysgol 4-6 – un oedolyn i bob 10-15 aelod

Aelodau sydd ym mlynnyddoedd ysgol 7 i fyny - un oedolyn i bob 15-20 aelod